CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r:	**Cabinet**
Dyddiad y cyfarfod:	**5 Gorffennaf 2022**
Teitl:	**Y Rhaglen Gyfalaf 3 Blynedd ddiweddaraf – 2022/23 i 2024/25**
Pwrpas yr adroddiad:	**Adrodd am y Rhaglen Gyfalaf 3 Blynedd a ddiweddarwyd**
Er:	**PENDERFYNIAD**
Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:	**Y Cynghorydd Gareth Davies – Gwasanaethau Cyllid a Chaffael**

1. CYFLWYNIAD

Cymeradwyodd y Cabinet y Rhaglen Gyfalaf 3 Blynedd ddiweddaraf ar gyfer 2020/21 – 2024/25 ar 1 Chwefror 2022 fel rhan o'r broses gyffredinol o bennu'r gyllideb. Yn sgil cau cyfrifon 2021/22, mae angen addasu a diweddaru'r Rhaglen i adlewyrchu'r canlynol:

- Yr ymrwymiadau a gariwyd ymlaen o 2021/22.
- Ail-broffilio'r cynlluniau a ariennir gan grantiau er mwyn adlewyrchu'r proffiliau diweddaraf ynghyd â'r grantiau newydd a gymeradwywyd.

2. CRYNODEB CYFFREDINOL

Mae Atodiad A yn cynnwys y Rhaglen Gyfalaf 3 Blynedd ddiweddaraf, ac mae'n dangos mai cyfanswm y Rhaglen Gyfalaf dros y 3 blynedd nesaf yw £107.4m. Cyfanswm y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2022/23 yw £45.9m, sy'n cynnwys £2.117m o gyllid y Cyngor sydd angen ei ddyrannu. Mae'n bosib y bydd angen defnyddio rhywfaint o'r £2.117m i dalu am bwysau chwyddiant ar gyfer rhai cynlluniau – bydd adroddiadau pellach yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet maes o law.

3. NEWIDIADAU ALLWEDDOL

Ymrwymiadau a gariwyd ymlaen o 2021/22:

Mae Atodiad B Adroddiad Alldro Rhaglen Gyfalaf 2021/22, yr adroddir arno ar wahân ar agenda'r cyfarfod hwn o'r Cabinet, yn dangos y cynlluniau a ariennir gan y Cyngor sydd ag ymrwymiadau yn 2022/23. Felly mae angen cario'r cynlluniau hyn a'r cyllid cysylltiedig ymlaen (sef cyfanswm o £2.203m).

Gofynion ychwanegol o ran cyllid:

Dyfarnwyd y cyllid grant ar gyfer y Gronfa Datblygu Tir ac Adeiladau, Trawsnewid Trefi – Prosiect Mash Aberteifi ac Offer Cegin Ychwanegol ar gyfer Ysgolion yn hwyr iawn yn ystod 2021/22. Daethpwyd i gytundeb â Llywodraeth Cymru y gallai'r cyllid gael ei ddefnyddio i ariannu cyllidebau eraill yn y rhaglen ar gyfer 2021/22. O ganlyniad gall y Cyllid Cyfalaf Cyffredinol a'r arian wrth gefn o £3.11m a glustnodwyd yn wreiddiol ar gyfer 2021/22 gael eu trosglwyddo i 2022/23 er mwyn sicrhau y gellir ariannu'r gwariant ar gyfer y tri chynllun yn 2022/23. Mae'r cytundeb â Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod yr holl gyllid grant wedi'i ddefnyddio.

Ail-broffilio Cynlluniau a Ariennir gan Grant a Grantiau Newydd a Gymeradwywyd

Mae amryw o gynlluniau grant wedi'u diweddaru, naill ai oherwydd grantiau newydd neu er mwyn adlewyrchu'r proffiliau diweddaraf a gymeradwywyd.

Yn ogystal dyfarnwyd nifer o grantiau newydd – dyma'r prif rai:-

- Canolfan trochi iaith a bloc newydd o ddosbarthiadau
- Offer cegin ychwanegol ar gyfer ysgolion er mwyn cefnogi'r gwaith o ddarparu Prydau Ysgol am Ddim
- Ysgolion Bro
- Pyllau nofio yn Aberaeron a Calon Tysul Cyf
- Cronfa Datblygu Tir ac Adeiladau
- Trawsnewid Trefi – Prosiect Mash Aberteifi
- Cronfa Rhwydweithiau Natur – Dalgylch Ardal Gadwraeth Arbennig Afon Teifi
- Grant Gwella Mynediad
- Y Gronfa Gofal Canolraddol – Llety â chymorth ar gyfer pobl sy'n byw gydag anawsterau dysgu
- Hyrwyddo annibyniaeth pobl yn eu cartrefi eu hunain
- Y Gronfa Teithio Llesol – Cyllid Craidd

Asesiad Effaith Integredig:	**A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig?** **Os naddo, nodwch pam** **Naddo, nid yw'r adroddiad hwn yn cyfeirio at newid mewn polisi neu wasanaeth**
Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:	**Hirdymor:** **Integreiddio:** **Cydweithio:** **Cynnwys:** **Atal:**
Argymhelliad / Argymhellion:	**Cymeradwyo'r Rhaglen Gyfalaf 3 Blynedd diwygiedig ar gyfer 2022/23 i 2024/25, fel y'i hamlinellir yn Atodiad A.**
Rhesymau dros y penderfyniad:	**Cymeradwyo'r Rhaglen Gyfalaf 3 blynedd ddiweddaraf**

Trosolwg a Chraffu:	**Ystyriwyd yn ystod y broses o bennu'r gyllideb**
Fframwaith Polisi:	**Strategaeth Ariannol Tymor Canolig**
Blaenoriaethau Corfforaethol:	**Mae'r Rhaglen Gyfalaf yn sail i'r holl Flaenoriaethau Corfforaethol.**
Goblygiadau Ariannol:	**Yn cydymffurfio**
Pwerau Statudol:	**Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992**
Papurau Cefndir:	**Y Rhaglen Gyfalaf 3 Blynedd a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 01/02/2022**
Atodiadau:	**A – Rhaglen Gyfalaf 3 Blynedd 2022/23 – 2024/25**
Swyddog Arweiniol Corfforaethol	**Stephen Johnson, Cyllid a Chaffael:**
Swyddog Adrodd:	**Justin Davies – Rheolwr Corfforaethol Cyllid Craidd**
Dyddiad:	**8 Mehefin, 2022**

Rhaglen Gyfalaf 3 Blynedd Arfaethedig 2022/23 - 2024/25

	Arfaethedig 2022/23	Dangosol 2023/24	Atodiad A Dangosol 2024/25	
	CYFANSWM £'000	CYFANSWM £'000	CYFANSWM £'000	
Ysgolion				
Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif (Band B)	5,322	11,218	-	CSC/Grant
Cyfarpar cegin ychwanegol i ysgolion i gefnogi cyflwyno prydau ysgol am ddim	570	-	-	Grant
Canolfan Drochi Iaith Gymraeg a bloc dosbarthiadau newydd	250	3,700	1,425	Grant
Ysgolion sy'n Canolbwyntio ar y Gymuned	456			Grant
Lleihau Maint Dosbarthiadau Babanod	909	-	-	Grant
Darpariaeth Gofal Plant	855	-	-	Grant
Ysgol Penglais - Uned Cefnogi Dysgu	687	-	-	CSC
Ysgol - gwaith cyfalaf ychwanegol	2,102	-	-	Grant
System Wresogi o dan y Llawr - Ysgolion	491	150	150	CSC
Gwaith Brys Ysgolion	150	150	150	CSC
Cyfanswm - Ysgolion	11,792	15,218	1,725	
Porth Cymorth Cynnar				
Hwb Cymunedol - Llanbedr Pont Steffan	1,054	-	-	Grant/CSC
Lleiniau Chwaraeon Artiffisial	575	-	-	CSC/Grant
Pyllau Nofio Aberaeron a Calon Tysul Cyf	280	-	-	Grant
Cyfanswm - Porth Cymorth Cynnar	1,909	-	-	
Economi ac Adfywio				
Gwaith Trin Carthion	725	-	-	CSC
Gwaith Brys Arall	100	100	100	CSC
Adeiladau - Buddsoddi i Arbed	175	175	175	CSC
Cyfleusterau Cyhoeddus - Mecanweithiau Codi Ffioedd	50	-	-	CSC
Rhaglen Datblygu Asedau	183	-	-	Grant
Neuadd y Farchnad Aberteifi	380	-	-	CSC
Rhaglen Adnewyddu Pontydd Troed	50	50	-	CSC
Gwelliannau i Seilwaith Gwyrdd Canol Tref Llanbedr Pont Steffan	82	-	-	Grant
Grant Gwella Mynediad	79	103	103	Grant
Grant Adferiad Gwyrdd	35	-	-	Grant
Cronfa Rhwydwaith Natur - Dalgylch Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Teifi	450	-	-	Grant
Cyfalaf Lleoedd Lleol ar gyfer Natur	115	-	-	Grant
Prosiectau Ffyniant Bro	4,644	4,101	2,106	Grant
Trawsnewid Trefi - Prosiect 'Cardigan Mash'	540			Grant
Cronfa Datblygu Tir ac Adeiladau	2,000	-	-	Grant
Datblygiad Tai Hafan y Waun	500	500	-	CSC
Cyfanswm - Economi ac Adfywio	10,108	5,029	2,484	

	Arfaethedig 2022/23	Dangosol 2023/24	Dangosol 2024/25	
	CYFANS WM £'000	CYFANS WM £'000	CYFANS WM £'000	
Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol				
Ffyrdd	200	200	200	CSC
Pontydd	350	150	150	CSC
Gwasanaethau Amgylcheddol	90	60	60	CSC
Gwelliannau Priffyrdd - Cyffredinol	860	700	700	CSC
Adnewyddu Priffyrdd Cyhoeddus	165	-	-	Grant
Rhaglen Goleuadau Stryd	57	-	-	CSC
Trawsnewid Cerbydau Allyriadau Isel Iawn	364	-	-	Grant
Grant Seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru)	300	-	-	Grant
Y Gronfa Teithio Llesol – Cyllid Craidd	500	-	-	Grant
Cynlluniau Lliniaru Llifogydd Dyfrffos Llandre/Borth	69	-	-	Grant
Rheoli Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol Capel Bangor a Thalybont	151			Grant
Dylunio Manwl Amddiffyn Arfordir Aberaeron	80	-	-	Grant
Dylunio Manwl Amddiffyn Arfordir Aberystwyth	257	-	-	Grant
Amddiffyn Arfordir Borth ac Ynyslas	23	-	-	Grant
Cynlluniau Amddiffyn Arfordir Aberaeron ac Aberystwyth	5,000	15,000	3,000	CSC/Grant
Gwastraff Cynnyrch Hylendid Amsugnol	24	-	-	Grant
Cerbydau Newydd	620	350	350	CSC
Gorsaf Trosgwlyddo Gwastraff	525	500	-	CSC
Cyfanswm - Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol	9,635	16,960	4,460	
Porth Gofal				
Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl	1,400	1,400	1,400	CSC
Grant Hyrwyddo Annibyniaeth i Bobl yn eu Cartrefi eu Hunain	229	-	-	Grant
Cynlluniau Benthyg Gwella Cartrefi a Throi Tai'n Gartrefi	100	-	-	CSC
Cylch Caron	252	-	-	CSC/Grant
Grant Galluogi Byw'n Annibynnol	146	146	-	Grant
Grantiau Mesurau Ynni Cartrefi Clyd	456	-	-	Grant
Camu Mlaen - Canolfan Steffan	78	-	-	CSC
Gwaith Brys - Cartrefi Preswyl	223	100	100	CSC
Canolfannau Dydd - Diogelu'r Cyhoedd a Gwella'r Amgylchedd	224	-	-	CSC
Uwchraddio Cartrefi Preswyl	999	400	-	CSC
Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais	81	-	-	Grant
Cronfa Gofal Integredig Byw â Chymorth i bobl sy'n byw ag anawsterau dysgu	421			Grant
Cronfa Gofal Integredig Hafan Deg - Prosiect Dementia	370	-	-	Grant
Y Gronfa Gofal Canolraddol - Prynu ac Adnewyddu Eiddo	290	-	-	Grant
Cyfanswm - Porth Ceredigion	5,269	2,046	1,500	

	Arfaethedig 2022/23	Dangosol 2023/24	Dangosol 2024/25	
	CYFANS WM £'000	CYFANS WM £'000	CYFANS WM £'000	
Cyswllt Cwsmeriaid				
Caledwedd TGCh	297	100	100	CSC
Ffonau Symudol Clyfar	30	-	-	CSC
Cyfanswm - Cyswllt Cwsmeriaid	327	100	100	
Cylllid a Chaffael				
Cynllun Grant Cymunedol	200	200	200	CSC
Cyfanswm - Cylllid a Chaffael	200	200	200	
Gwasanaethau Democrataidd				
Uwchraddio Cyfarpar Siambr y Cyngor - Cam 2	32	-	-	CSC
Cyfanswm - Gwasanaethau Democrataidd	32	-	-	
Cyllid i'w ddyrannu	2,117	950	1,400	
CYFANSWM Y RHAGLEN WAITH	41,389	40,503	11,869	
Hapddigwyddiadau	170	350	350	
Alinio Proffiliau	150	-	-	
Grantiau Newydd a Gymeradwywyd/Arian cyfatebol ar gyfer rhaglenni grant	4,200	4,200	4,200	
Cyfanswm - Hapddigwyddiadau	4,520	4,550	4,550	
CYFANSWM Y RHAGLEN GYFAN	45,909	45,053	16,419	